Polisi Amgylcheddol

Cyflwyniad

Mae Tir Coed yn cydnabod hollbwysigrwydd hyrwyddo, amddiffyn a gwella'r amgylchfyd, ynghyd â mesurau cymdeithasol ac economaidd, wrth ymwneud â gwireddu egwyddorion datblygaeth cynaliadwy.
Ar gyfer hyn, mae Tir Coed, yn ei holl weithgareddau, yn ymroddol i ymddwyn mewn modd sydd yn cynyddu, yn amddiffyn ac yn hyrwyddo cydnabyddiaeth o:

- **bio-amrywiaeth**
- **adnoddau naturiol**
- **athroniaeth a moeseg lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu**
- **yr amgylchedd a datblygaeth cynaliadwy**
- **priodoleddau esthetig yr amgylchfyd, yn naturiol ac wedi eu hadeiladu**

Mae Tir Coed yn ystyried bod gweithredu i amddiffyn neu i greu amgylchfyd cynaliadwy yn ran angenrheidiol o ddatblygu cymunedol. Ni all unigolion na chymunedau reoli eu bywydau mewn modd ystyrlon heb iddynt gael rhywfaint o gyfrifoldeb a gallu i ddylanwadu ar eu hamgylchfyd. Mae Tir Coed yn ymroddol i ddangos arfer da i grwpiau eraill yn yr ardal trwy ei gwaith. Wrth weithio gyda sefydliadau cymunedol a grwpiau gwirfoddol, bydd Tir Coed yn eu hannog i edrych ar eu hamcanion a'u gweithgareddau yn fwy cyffredinol ac i ddatblygu polisïau a strategaethau cyfannol, sydd yn ystyried cyd-destun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu gwaith.

Cyfrifoldebau

Mae'r ymrwymiad hyn yn effeithio ar bawb sydd yn gweithio gydag ac ar gyfer Tir Coed, gan gynnwys aelodau o'r bwrdd, staff a gwirfoddolwyr.

Cyfrifoldeb y Swyddogion Prosiect ydyw gweithredu'r polisi.

Arferion Gweithio ac Ymrwymiadau penodol

Prynu a Chyflenwi

- Pan fo'n bosib, byddwn yn prynu cynhyrchion a gwasanaethau a gynhyrchiwyd neu sydd ar gael yn lleol.
- Sicrhau bod pob pryniad o bapur yn cynnwys cyfran uchel o ddeunydd wedi ei ailgylchu (byddwn yn ceisio am 100%), gyda blaenoriaeth i bapur sydd yn cario marc:
  a) ardystiad FSC; neu,
  b) ardystiad PFC
- Bydd pob papur a brynir o'r radd isaf posib sydd yn gydnaws â'i ddefnydd arfaethedig.
- Ni fydd Tir Coed yn prynu pren caled trofannol o ffynonellau anghynaladwy, yn hytrach, byddwn yn ceisio pren caled lleol (Cymru) a phren o ffynonellau tymherus ardystiedig eraill.
- Bydd pob cynnyrch glanhau a brynir gan Tir Coed mor garedig i'r amgylchfyd a fo'n bosib. Rhoddir blaenoriaeth i gynhyrchion aerosol pwmp y gellir eu hailddefnyddio a chynhyrchion sydd ddim yn chwistrellu.
- Ni fydd yna unrhyw ddefnydd o fawn na chynhyrchion sydd yn cynnwys mawn.
- Byddwn yn defnyddio egni o ffynonellau gwyrdd, pan fo'n bosib.

Yr Amgylchfyd Naturiol

- Pan fo'n addas, bydd staff Tir Coed yn sicrhau bod arolygiadau ecolegol yn cael eu cyflawni a bod eu canlyniadau yn cael eu defnyddio wrth gynllunio a datblygu'r prosiectau.
- Bydd Tir Coed yn gwneud y defnydd eithaf o mathau cynhenid o goed yn y prosiectau ymarferol.

- Ni fydd unrhyw chwynladdwyr na chemegau eraill yn cael eu defnyddio yn ystod gweithgareddau a reolir gan Tir Coed. Ar gyfer gweithgareddau sydd tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Tir Coed, bydd rheolau COSHH a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar ddefnyddio plaladdwyr a chemegau eraill yn cael eu defnyddio.

Trafnidiaeth

Bydd y sefydliad yn:

- Annog, pan fo'n bosib, defnyddio beiciau ar gyfer siwrneiau bychain a thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer siwrneiau helaethach.

- Gweithio tuag at leihau traul tanwydd gan ranni cerbydau, cyfuno siwrneiau, cynllunio da a chynnal a chadw cerbydau yn rheolaidd.

Ailgylchu

- Bydd Tir Coed yn mabwysiadu strategaeth sylfaenol o **leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu.**

- Bydd Tir Coed yn creu systemau a gweithrediadau er mwyn sicrhau bod y rhan helaethaf o'i gwastraff yn cael ei ailgylchu, gan gydnabod bod didoli'r gwastraff yn elfen hollbwysig o wireddi'r strategaeth hon.

Egni

Bydd Tir Coed yn ceisio lleihau traul egni gan:

- Sicrhau bod pob dyfais sydd yn defnyddio trydan a thanwydd wedi ei gydosod a'i ddefnyddio yn gywir.

- Brynu pob eitem trydanol newydd ar sail ei heffeithlonrwydd egni pan fo'n bosib.

- Droi golau ac offer arall i ffwrdd pan nad ydyw yn cael ei ddefnyddio.

- **Ymwneud ag eraill**

- Ni fydd Tir Coed yn gweithio ar gyfer unrhyw grŵp, cleient na sefydliad os oes yna unrhyw amheuaeth eu bod yn gweithredu neu eu bod yn bwriadu gweithredu mewn modd sydd yn mynd i gael effaith negyddol diangen, a allasent ei osgoi, ar yr amgylchfyd, a phan na fydd Tir Coed yn medru dylanwadu mewn modd bositif ar y sefyllfa.

- Wedi iddynt dderbyn cyngor gan Gadeirydd Bwrdd Tir Coed, ac os nad oes modd perswadio'r sefydliad dan sylw i atal unrhyw weithgareddau sydd yn achosi niwed amgylcheddol diangen neu a allasent ei osgoi, bydd gan Swyddogion Prosiect Tir Coed yr hawl i atal y bartneriaeth gyda'r sefydliad o dan sylw, oni bai bod yna

oblygiadau contract neu cyfreithiol dros beidio â gwneud hyn. Os oes yna unrhyw oblygiadau contract neu cyfreithiol dros beidio â thynnu allan o unrhyw brosiect ar sail amgylcheddol, yna bydd y Swyddogion Prosiect yn hysbysu Cadeirydd y bwrdd yn syth er mwyn iddynt benderfynu ar sut i weithredu orau er budd y polisi amgylcheddol ac er enw da Tir Coed.

- **Contractau ag eraill:** Bydd disgwyl i unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd yn gweithio ar gyfer neu gyda Tir Coed gydymffurfio â'r polisi hwn.

Monitro

Bydd Tir Coed yn monitro cymhwysiad y polisi hwn er mwyn sicrhau bod ei weithrediad yn cydymffurfio â gofynion y Polisi. Bydd y Swyddogion Prosiect yn adrodd ar unrhyw faterion o bwys sydd yn ymwneud â'r polisi hwn yn eu hadroddiadau rheolaidd i'r bwrdd.

Hyrwyddo

Bydd pob aelod o'r Bwrdd, aelod o staff, contractwr a gwirfoddolwr yn cael eu hysbysu o fodolaeth y polisi hwn, ei gynnwys a'i ofynion.